

## **CYNGOR CYMUNED EGLWYSBACH COMMUNITY COUNCIL**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNNHALIWYD AM 7.30.yh. AR NOS FAWRTH YR 2AIL IONAWR 2018 YN NEUADD ABERCONWY, EGLWYSBACH.

1. PRESENNOL : Cynghorwyr: Gwyn Morris Jones (Cadeirydd), John Emlyn Jones, John Lloyd Williams, Ceri Leader, Catherine Williams, Gwilyn Williams, Austin Roberts, Phyllis Purchase ac Arthur Williams.

Roedd aelod o'r cyhoedd yn bresennol drwy'r cyfarfod.

2. YMDDIHEURIADAU: Roedd y clerch yn ymddiheuro oherwydd salwch.
3. DATGANIAD DIDDORDEB: DIM. Roedd y Cynghorydd Austin Roberts eisiau datgan, gan ei fod ar y pwyllgor cynllunio sirol, nid oedd ganddo'r hawl i wneud unrhyw sylw ar faterion cynllunio a drafodir yn y cyfarfod heno.
4. COFNODION – Cymeradwywyd y cofnodion gydag ychydig o fân newidiadau.

### MATERION YN CODI

11.17/5(i) Cyflymder y We. Nid yw'r Cynghorydd Austin Roberts wedi derbyn ateb i'w ymholiad eto gan pennaeth Gwasanaethau TG CBS Conwy.

11.17/5(ii) Safle Bws. Diweddariad. Mynegodd y Cynghorydd Austin Roberts fod Mr Dawson o'r Cyngor Sir yn edrych i mewn i'r mater.

11.17/5(iv) Glanhau y ffordd rhwng Croesangen i Chweffordd a hefyd i Tyn Twll. Mae'r gwaith ar y rhestr waith ond nid yw wedi ei gwblhau oherwydd prinder staff. Codwyd y mater o ddŵr ar y Ffordd Rhandir. Eto, mae'r Cynghorydd Austin Roberts wedi cael addewid y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau cyn yr haf.

11.17/5(v) Gwasanaeth Bws X1 Dim byd i'w adrodd.

12.17/5(i) Fwy o'r Heddlu yn y pentref. Dim byd i'w adrodd.

### 5. CYNLLUNIO

1.18/6(i) 0/44636 Tystysgrif cyfreithiondeb ar gyfer defnydd presennol o safle fel iard goed gydag adeiladau yn The Rookery, Yr Hen Ffordd, Bodnant, Eglwysbach. Mr Michael McLaren. Dim gwrthwynebiad

1.18/6(ii) 0/44649 Estyniad arfaethedig ac addasiadau mewnol i annedd bresennol yn 1, Y Berllan, Maes Llan, Eglwysbach. Mr Myfyr Jones. Dim gwrthwynebiad.

1.18/6(iii) 0/44672 Adlinio'r wal ffin (Caniatad adeilad rhestredig) yn Gerddi Bodnant, Eglwysbach. Mr Steve McGlade. Dim gwrthwynebiad ond hoffai'r cynghorwyr fynegi eu pryderon fod y ffordd yn gul a bod angen sicrhau na fydd mwy o berygl i deithwyr mewn cerbydau sy'n teithio ar hyd y ffordd oherwydd defnydd y fynedfa gan lorïau mawr. Roedd y Cynghorwyr hefyd yn bryderus bod rhan o wal wedi ei rhestru yn mynd i gael ei ddymchwel.

6. ADRODDIAD ARIANNOL – PENDERFYNWYD I cymeradwyo ac arwyddo mantolen y Banca hyd at y 5ed Rhagfyr 2017.

Cyfrif wrth gefn.....£ 2069.74  
Cyfrif Angladdau.....£1897.20  
Cyfrif Cyfredol.....£5431.15

7. TALIADAU I FEWN – PENDERFYNWYD I NODI y taliadau isod.

1.18/8(i) Y Praesept.....£2240.00

8. TALIADAU – PENDERFYNWYD I TALU yr eitemau a restrid isod.

1.18/9(ii) Mrs Hayward.....£98.00  
1.18/9(v) Cyngor BD Conwy am sgip..£222.00  
1.18/9(vi) Swyddfa Archwilydd Cymraeg..£318.75  
1.18/9(vii) Cradur.com.....£24.40  
1.18/9(viii) Cyngor Conwy Etholiad.....£156.80  
1.18/9(ix) Cwmni Yswiriant Zurich.....£416.94  
20.12.17 Taliad i Bodnant Joinery.....£870.00 wedi ei talu.

9. GOHEBIAETH

1.18/10(i) Cerdyn Nadolig gan Guto Bebb AS. NODWYD

1.18/10(ii) Hysbysiad am swm priodol o dan adran 137 am 2018/2019. PENDERFYNWYD I GOHIRIO a fater hon.

## 10. UNRHYW FATER ARALL

1.18/11(i) Ailnewyddu y diffibriliwr. Cytunodd y Cadeirydd i ofyn barn swyddog o'r Gwasanaeth Ambiwylans ynglŷn â'r ffordd ymlaen, naill ai adnewyddu'r diffibriliwr neu'r batri yn unig. Trafodwyd y posibilrwydd o brynu diffibriliwr ychwanegol a'i leoli yn ardal Y Graig neu Croesffordd Nebo.

12.17/10(ii) Y Praesept. Gadael tan y cyfarfod nesaf.

1.18/11(ii) Yswiriant cyhoeddus y Clerc. Gadael tan y cyfarfod nesaf.

1.18/11(iii) Pasiwyd i anfon llythyr i Mri Paul Roberts a Paul Williams\* yn mynegi diolchgarwch y Cyngor iddynt am drefnu coeden Nadolig a'r goleuadau ar gyfer y pentref. Cytunwyd y dylai'r cyngor ystyried yn gynt yn y flwyddyn i drefnu prynu a gosod coeden ar gyfer y flwyddyn nesaf.

1.18/11(iv) Polyn Fflag. Mynegwyd diolch i'r Cyngorwyr a fu'n sythu'r polyn fflag.

1.18/11(v) Gollwng sbwriel yn anghyfreithlon: Nodwyd bod sbwriel wedi ei ollwng ar y brif ffordd ger Penmynydd. Cytunodd y Cynghorydd Austin Roberts hysbysu'r adran briodol yn y Cyngor Sir.

1.18/11(vi) Bws Ariva. Roedd un Cynghorydd yn nodi pryder rai rhieni am ddiogelwch eu plant gan fod bws Ariva yn pasio'r ysgol ar yr amser pan oedd y disgyblion yn cael eu gollwng am 3:30. Gan fod rhieni yn parcio i gasglu eu plant mae'r llwybr i'r bws wedi ei chulhau. Trafodwyd y mater ond ni allai'r cynghorwyr feddwl am ffordd i ddatrys y broblem heb achosi cwtogiad yn y gwasanaeth bws.

1.18/11(vii) Sgaffaldiau ar y briffordd ger Tŷ Llundain. Y Cynghorydd Austin Roberts am holi'r adran briodol os oes rhybudd wedi ei roi.

1.18/11(viii) Llwybr Cyhoeddus y Chwarel. Nodwyd oherwydd problemau, mae'r llwybr wedi ei gau dros dro.

1.18/11(ix) Llwybr cyhoeddus Foel - Rhandir. Deallwyd fod llysdyfiant wedi gordyfu ar y llwybr hwn. Cytunodd y Cynghorydd Austin Roberts holi'r adran yn y Cyngor Sir er mwyn sicrhau fod y gwaith yn cael ei wneud cyn yr haf.

1.18/11(x) Llain tir gyferbyn a'r ysgol. Deallwyd gan y Cynghorydd Austin Roberts fod arian wedi sicrhau i wneud y gwaith o osod ffens barhaol yn y gwanwyn.

1.18/11(xi)Gwasanaeth papur newydd. Deallwyd fod gwasanaeth newydd yn yr arfaeth i sicrhau fod papurau newydd yn dod i'r pentref yn ddyddiol. Bydd hyn yn digwydd drwy drefniant gyda staff Tafarn y Bee.

11. DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF. – Chwefror 6ed 2018

\*Paul Roberts (2 Maes Llan, Eglwysbach, Bae Colwyn, LL28 5UB) a Paul Williams (3 Maes Llan, Eglwysbach, Bae Colwyn, LL28 5UB) y ddau yn siarad Cymraeg.

Terfnwyd y cyfarfod am 9:00

CADEIRYDD.....DYDDIAD.....